

# Arweiniad i Arolygwyr

Gweithgarwch dilynol

Arolygiadau ar y cyd AGC / Estyn

Lleoliadau nas cynhelir

Medi 2021



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

## Gweithgarwch dilynol: Arolygiadau ar y cyd AGC / Estyn

**Arweiniad ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn ysgolion, sy'n darparu gofal ac sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser, ac ar gyfer arolygwyr. Medi 2021.**

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer holl arolygiadau ar y cyd Estyn ac AGC a gynhelir o fis Medi 2021.

Mae'r arweiniad yn disgrifio'r camau y bydd timau arolygu yn eu cymryd i'w helpu i gytuno ar weithgarwch dilynol priodol.

Mae'r arweiniad hwn yn hyblyg gan fod angen iddo fod yn ymatebol i'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n digwydd mewn lleoliadau wrth iddynt wella ar ôl arolygiadau craidd ar y cyd. Mae Estyn ac AGC yn cadw'r hawl i addasu'r arweiniad i fodloni anghenion lleoliadau penodol.

## Arweiniad ar gyfer arolygwyr ar osod lleoliad mewn categori gweithgarwch dilynol

Yn ystod yr holl arolygiadau craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y lleoliad.

Mae dau gategori gweithgarwch dilynol y gallai arolygwyr eu hystyried, sef:

### Gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws ar y cyd

**Fel arfer**, mae angen gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws ar y cyd ar leoliad:

- os bydd arolygwyr yn nodi gwendidau pwysig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, sydd fel arfer yn arwain at farn 'gwael' ar gyfer thema 6, AC
- os bydd arolygwyr wedi nodi achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Gallai hyn arwain, neu beidio arwain, at rybudd gweithredu blaenoriaethol.

Bydd gwaith gweithgarwch dilynol ar y cyd yn cael ei wneud gan arolygwyr AGC ac Estyn.

### Adolygu gan Estyn – gweithgarwch dilynol gan Estyn yn unig

- Mae arolygwyr yn nodi gwendidau pwysig yn y deilliannau neu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar.

Bydd gwaith gweithgarwch dilynol Estyn yn unig yn cael ei wneud gan arolygwyr Estyn yn unig.

**Sylwer:** Ni fydd unrhyw newid i'r barnau o arolygiadau craidd ar y cyd o ganlyniad i weithgarwch arolygu dilynol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau arolygu gan arolygwyr AGC i brofi cydymffurfio lle cyflwynwyd rhybudd.

## Gosod lleoliad mewn categori gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws ar y cyd

Wrth ystyried gosod lleoliad mewn categori gwelliant â ffocws ar y cyd, dylai arolygwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

- a yw arolygydd AGC wedi nodi achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio ac wedi cyflwyno rhybudd gweithredu blaenoriaethol i'r lleoliad?
- a yw'r lleoliad yn methu darparu safon dderbyniol o addysg a gofal ar gyfer plant?
- a yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain neu reoli'r lleoliad yn methu dangos bod ganddynt y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn y lleoliad? **Yn yr achos hwn, mae'r farn ar gyfer thema arolygu 6, sef arweinyddiaeth a rheolaeth, yn debygol o fod yn wael.**

Dylai'r tîm arolygu ystyried beth yw'r barnau ar gyfer yr holl themâu cyn penderfynu ar welliant â ffocws. Er enghraifft, pan gyflwynir rhybudd gweithredu blaenoriaethol ond mae'r barnau ar gyfer themâu 1, 2 a 4 yn dda, gallai fod yn ddigonol i AGC ddelio â'r achos o ddiffyg cydymffurfio trwy ddilyn ei Pholisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

Rhaid i'r tîm arolygu wneud eu penderfyniad am weithgarwch dilynol ar y cyd, a chyfiawnhau eu barnau ar sail tystiolaeth gadarn.

Dylai arolygwyr bwysleisio yn ystod y cyfarfod adborth fod yr holl farnau, yn cynnwys y penderfyniad i osod y lleoliad yn y categori gweithgarwch dilynol gwelliant â ffocws, yn rhai dros dro ac yn destun cymedrol gan y ddwy arolygiaeth. Mae'r penderfyniad yn gyfrinachol i'r lleoliad hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad. Mae'r un prosesau sicrhau ansawdd yn berthnasol i waith gweithgarwch dilynol ag i arolygiadau ar y cyd.

## Gosod lleoliad yn y categori adolygu gan Estyn – gweithgarwch dilynol Estyn yn unig

Wedi i arolygwyr benderfynu nad oes angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad, dylai arolygydd Estyn ystyried y cwestiynau canlynol:

- A oes angen gwelliannau pwysig mewn lles, dysgu, ac / neu addysgu ac asesu ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu?
- A yw arweinwyr a rheolwyr yn dangos y gallu i ysgogi gwelliannau mewn lles, safonau a darpariaeth ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu?

Dylai'r arolygydd ystyried y barnau ar gyfer themâu 1, 2, 4 a 6.

Os bydd arweinwyr a rheolwyr yn methu dangos y gallu i ysgogi'r gwelliannau gofynnol, dylai arolygwyr ystyried gosod y lleoliad yn y categori adolygu gan Estyn.

Rhaid i'r arolygydd allu cyfiawnhau'r barnau ar sail tystiolaeth gadarn.

Dylai arolygwyr bwysleisio yn ystod y cyfarfod adborth fod yr holl farnau, yn cynnwys y penderfyniad i osod y lleoliad yn y categori gweithgarwch dilynol adolygu gan

Estyn, yn rhai dros dro, ac yn destun cymedroli gan y ddwy arolygiaeth. Mae'r penderfyniad yn gyfrinachol i'r lleoliad hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad.